**Dyddiad**/Date 20 Medi 2024
**Gofynnwch am**/Ask for Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion
**Rhif ffôn**/Telephone 01446 700111
**Ffacs**/Fax
**e-bost**/e-mail admissions@valeofglamorgan.gov.uk
**Eich Cyf**/Your Ref
**Fy Nghyf**/My Ref

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri
CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63
4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

Annwyl Riant/Warcheidwad

**ADDYSG UWCHRADD: DERBYNIADAU YM MIS MEDI 2025**

Gan y bydd eich plentyn yn dechrau addysg uwchradd ym mis Medi 2025, mae'n bryd i chi wneud cais am le yn eich dewis ysgol. Gallwch weld trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cynnig lleoedd mewn dosbarthiadau Blwyddyn 7 yn yr adran derbyn i ysgolion, derbyniadau uwchradd, ar ein gwefan drwy'r ddolen ganlynol Derbyn i Ysgol Uwchradd (valeofglamorgan.gov.uk) a thrwy ddarllen y Canllaw i Rieni ar Dderbyn i Ysgolion. Darllenwch y canllaw cyn gwneud cais, gan ei fod yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am y broses dderbyn i ysgolion, gan gynnwys y meini prawf gordanysgrifio a ddefnyddir i gynnig lleoedd pan fo ysgol wedi'i gordanysgrifio. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ofyn am gopi caled o'r canllaw gan y cyngor neu gan ysgol eich plentyn. Rhaid i'ch cais gael ei wneud erbyn y dyddiad cau sef **22 Tachwedd 2024**. Yna cewch wybod y canlyniad drwy ar **3 Mawrth 2025**. Os na wnewch gais am le yn un o ysgolion cymunedol y cyngor erbyn y dyddiad cau, ac os yw'r lleoedd wedi'u gordanysgrifio, mae posibilrwydd na fydd eich plentyn yn cael lle yn eich ysgol leol.

Ar y ffurflen gais, bydd angen i rieni gyflwyno tri dewis ar gyfer ysgolion uwchradd yn nhrefn blaenoriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion gallwn gynnig eich dewis cyntaf i chi, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Trwy roi tri dewis ar eich cais rydych yn fwy tebygol o gael lle mewn ysgol sy'n dderbyniol i chi yn hytrach na derbyn cynnig i ysgol a all fod gryn bellter i ffwrdd neu nad yw'n un o'ch dewisiadau. Mae angen i chi ddefnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael i chi er mwyn sicrhau lle mewn ysgol uwchradd i'ch plentyn ar gyfer mis Medi 2025 oherwydd roedd lleoedd yn gyfyngedig iawn y llynedd. **Os ydych chi'n gwneud cais am addysg Cyfrwng Cymraeg, nid oes angen nodi mwy nag un dewis**.

**Cyfranogiad St Richard Gwyn yng nghynllun trefniadau derbyn cydlynol y Cyngor**

Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch hefyd wneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn drwy ddefnyddio'r gwasanaeth gwneud cais ar-lein. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y meini prawf derbyn ar gyfer St Richard Gwyn. Anogir trigolion y Barri neu'r disgyblion hynny sy'n mynychu ysgol gynradd ffydd i sicrhau bod St Richard Gwyn yn un o'r dewisiadau a restrir ar eu cais.

**YSGOL STANWELL**

Daeth Ysgol Stanwell yn ysgol gymunedol a gynhelir o fis Medi 2024. Mae hyn yn golygu mai'r Cyngor fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd angen gwneud pob cais drwy Broses Derbyniadau Ar-lein y cyngor.

O ganlyniad i newid statws Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol gymunedol a gynhelir o fis Medi 2024, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu trefniadau pontio ar gyfer y plant hynny a oedd yn mynychu un o ysgolion cynradd bwydo dynodedig Stanwell cyn y newid statws. Yr ysgolion bwydo dynodedig yw ysgolion cynradd Albert, Evenlode, Sili a Victoria. Mae'r trefniadau pontio hyn bellach yn rhan o bolisi derbyniadau'r Cyngor. Bydd y cyngor yn cadw'r cysylltiad ysgolion cynradd bwydo i Stanwell ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Byddai pob plentyn o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 mewn ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws bwydo. Nid yw'r trefniadau pontio a'r cyswllt ysgol fwydo yn berthnasol i blant sy'n dechrau yn ysgolion cynradd Albert, Evenlode, Sili a Victoria o fis Medi 2024 ymlaen. Yn yr achosion hyn, byddai meini prawf gordanysgrifio y Cyngor yn berthnasol.

Bydd y trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg Uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf sy'n gymwys o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

**PROSES DERBYNIADAU AR-LEIN**

Gallwch wneud cais trwy ein proses derbyniadau ar-lein. Mae'n syml ac yn gyflym, ac yn ffordd haws o lawer i rieni wneud cais. Cyn cofrestru a gwneud cais ar-lein, rhaid i chi gofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost dilys. Mae Porthol Addysg Ar-lein y Cyngor ar ein gwefan yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn. Dilynwch y ddolen 'Gwneud Cais Nawr' ar y dudalen Derbyn i Ysgol Uwchradd Derbyn i Ysgol Uwchradd (bromorgannwg.gov.uk).

Er ei bod yn fwy diogel gwneud cais ar-lein ac y byddwch yn cael neges electronig i gadarnhau bod eich cais wedi dod i law, mae ffurflenni cais papur ar gael i'r sawl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd. Os hoffech ffurflen gais bapur, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn fel y gallwn anfon un atoch. Cofiwch fod y dyddiad cau'r un fath ar gyfer pob math o gais.

**Gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf**

Rhaid gwneud ceisiadau ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf drwy'r ysgol gan mai'r Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn. Os hoffech wneud cais ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol cyn gynted â phosibl i drefnu hyn gan y gallai ei dyddiadau cau amrywio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Mynediad Ysgolion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Yn gywir

**Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion**
**Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau**